**<u>Cofnodion Cyfarfod CCG Mis Rhagfyr 17.12.20</u>**

**<u>Am 7.30yh Ar-lein</u>**

**19:169: Presennol:** Siôn Ifans (Cadeirydd), Geraint Wigley, William Owen, Gwenfair Davies, Gareth Jones, Iwan Jones, Elwyn Vaughan, Sandra Evans (Clerc)

**19:170: Ymddiheuriadau:** Deryck Lewis

**19:171: Datganiadau o ddiddordeb** Dim

**19:172: Cyflwyno a Derbyn Cofnodion Tachwedd**

Cynigodd William Owen fod y cofnodion yn gywir. Fe'i heiliwyd gan Iwan Jones.

**19:173: Cynllunio** 20/1572/FUL Newid defnydd ôl-weithredol o dir ar gyfer maes gwersylla am ran o'r flwyddyn a gosod tanc septig. Dyfi Adventure Campsite, Nant Y Cyff, Aberangell. Awgrymwyd y dylid cefnogi'r cais ar yr amod bod enw Cymraeg ar y safle. Cynigiwyd gan Gwenfair Davies ac fe'i heiliwyd gan Iwan Jones.

**19:174: Materion yn codi o'r Cofnodion**

Nodwyd bod yr holl broblemau ffyrdd wedi cael eu hadrodd. Mae halen wedi cyrraedd ardal Darowen. Bydd Clive Jones yn ymweld â'r ffordd rhwng Llanwrin a Ffridd Gate lle torrwyd y coed ar ochr y ffordd yn y flwyddyn newydd.

**19:174: Materion Ariannol:**
**19:174:1: Cyllid 2021-2022 Tafodwyd a phenderfynwyd cyllid y Cyngor 2021-2022**
**19:174:2: Gosodwyd Praesept 2021-2022** Cytunwyd y dylid gofyn am £11,500.00. Cynigiodd Gwenfair Davies bod hyn yn dderbyniol ac fe'i heiliwyd gan Geraint Wigley.
**19:174:3: Gwasanaethau cyflogres a PAYE i Whittingham Riddell** £100.00. Cynigiwyd Gwenfair Davies y dylid talu hwn ac fe'i heiliwyd gan Gareth Jones.
**19:174:4: Bancio ar-lein.** Cafwyd gwybod y bydd mandad y banc yn cael ei ddiweddaru ymhen 10 diwrnod. Nodwyd y byddai trosglwyddo pres yn hwylusach pan fydd bancio ar-lein ar waith.
**19:174:5: Cynnal a chadw cofeb Cemaes.** Talwyd £50.00 i Mr. Wyn Ifans gyda diolch a gwerthfawrogiad am ei waith.

**19:175: Penodi Elusennau** – Bydd CCG yn cyfrannu £1500.00 at elusennau sef:
Ambiwlans Awyr Cymru - £500.00
Byddin yr Iachawdwriaeth - £250.00
Cymdeithas Alzheimer's £200.00
Cyngor Bro Ddyfi – £250.00
DPJ Foundation - £200.00
Homestart -£100.00

**19:176: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**19:176:1; Elwyn Vaughan Cyngor Sir Powys**

**Canolfan hamdden ac ysgol newydd ym Machynlleth-** Cadarnhawyd bod pecyn cyllido o £48 miliwn o bunnoedd wedi cael ei gymeradwyo a bod cae wedi cael ei brynu ar gyfer maes

chwaraeon. Bydd y gwaith adeiladu'n mynd i dendr yn y Gwanwyn gyda'r gwaith yn cychwyn ym mis Medi.

**Ysbyty Machynlleth** – Bydd y safle'n cael ei datblygu yn y Gwanwyn

**Tai i'w rhentu yn unol ag amod 106** - Mae tŷ ar gael yn Ninas Mawddwy yn ogystal â thŷ cyngor yn Llanbrynmair.

**19:176:2: Y Bwrdd Iechyd – Gareth Jones a Gwenfair Davies.** Nodwyd bod llythyr ar y gweill i fynegi anfodlonrwydd y Cyngor â'r ddarpariaeth feddygol.

**19:177: Gohebiaeth**

**19:177:1: Awdit Cymru** Mae trefn archwiliadau cenedlaethol newydd ar gyfer Cynghorau cymuned a thref. O hyn allan cynhelir awdit llawn bob tair blynedd, gyda CC Glantwymyn yn cael awdit llawn yn 2022. Mynegwyd diolch i Mel, Un Llais Cymru am rannu cyngor ar y mater.

**19:177:2: Llythyr i ddarllenwyr y Blewyn Glas** yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor i ysgol ddwyieithog arfaethedig ardal Bro Ddyfi. Bydd y Clerc yn llenwi'r holiadur ar-lein i ddangos cefnogaeth y Cyngor. Argymhellwyd y dylid cefnogi'r datblygiad mewn egwyddor gan fod gwir angen hyn yn yr ardal a nodwyd y byddai hefyd yn unol â nod Llywodraeth Cymru i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg. Cynigiwyd hyn gan Iwan Jones ac fe'i heiliwyd gan Gwenfair Davies.

**19:168: Unrhyw fater arall**

**19:168:1: Cytundebau Bocsys ffôn –** Penderfynwyd y dylid llunio cytundeb i'w hadnewyddu'n blynyddol ar gyfer defnydd bocsys ffôn o'r math. Cysylltir ag Isobel Bottoms, Siop Cemaes mewn perthynas â chiosg Cemaes.

Caewyd y cyfarfod am 9.00yh.

**Cynhelir Cyfarfod CCG am 7.30yh ar yr 28ain o Ionawr**

-----------------------------------------------

**Cyfarfod Ymddiriedolaeth y Melinau Gwynt 26.11.20**

Derbyniwyd siec am £2,000.00 gan edf yn gyfraniad o fis Gorffennaf i fis Rhagfyr 2020.

Caewyd y cyfarfod am 9.05